

PUCK'S VALLEY


CWM PWCA

Circular walk/Approx 5 Km (3.1 miles)/1.5 hours

Taith gylch/Tua 5 Km (3.1 milltir)/1.5 awr



TREASURE TRAILS LLWYBRAU TRYSOR



TREASURE TRAIL TALES

Welcome to the Blaenavon World Heritage Site! Since the year 2000 this industrial landscape has been recognised as one of the world's top heritage treasures. This is because it is one of the very few places where you can follow the story of the industrial revolution. A story that was first carved into the landscape by an army of people, using little more than picks and shovels, some 200 years ago.

However, this industrial landscape does not reveal its secrets very easily so you will have to get out and discover

its hidden gems for yourselves! To help you, we've created this series of 'Treasure Trails', each one with a tale to tell, treasure to find and challenges to complete along the way.

We hope you have fun exploring the Blaenavon World Heritage Site. By the time you've walked our trails you'll be an expert in reading the landscape, seeing it for what it really is, full of character and historical interest - a true testament to human endeavour.

STORïAU TEITHIAU TRYSOR


Croeso i Safle Treftadaeth Byd Blaenafon! Ers y flwyddyn 2000 mae'r tirlun diwydiannol hwn wedi'i gydnabod yn un o drysorau pennaf treftadaeth y byd. Y rheswm am hyn yw ei fod yn un o'r ychydig iawn o leoedd lle gallwch ddilyn stori'r chwyldro diwydiannol. Dyma sori a gafodd ei naddu gyntaf yn y tirlun gan fyddin o bobl yn defnyddio fawr ddim mwy na chaib a rhaw, tua 200 mlynedd yn ôl.

Er hynny, nid ar chwarae bach y mae'r tirlun diwydiannol yma yn datgelu ei gyfrinachau ac felly bydd rhaid

ichi fynd ati i ganfod ei drysorau cudd dros och eich hunain! I'ch helpu, rydyn ni wedi creu'r gyfres yma o 'Teithiau Trysor', bob un â'i stori i'w hadrodd, ei drysor i'w ganfod a'i heriau i'w cwblhau ar hyd y ffordd.

Gobeithio y cewch chi hwyl yn crwydro Safle Treftadaeth Byd Blaenafon. Erbyn ichi gerdded ein llwybrau fe fyddwch yn arbenigwr mewn darllen y tirlun. Byddwch yn gweld beth sydd yno mewn gwirionedd, tirlun llawn cymeriad a diddordeb hanesyddol

- gwir brawf o ymdrechion dynol.



Puck's Tale

Follow me if you dare and I'll take you deep into the Clydach Gorge. The name's Puck. Some people say that the great bard William Shakespeare was inspired to write about me in a play he called 'A Midsummer Night's Dream' following a visit to the Gorge over 400 years ago. But I can tell you that I'm much older than that and I've seen all of the comings & goings. Be nice to me and I'll tell you.

It all kicked off around 250 years ago when they discovered the Gorge's hidden treasures. Iron ore, limestone, water for power and wood for making charcoal to fuel the furnaces. The fiery, smoke belching furnaces in which they made their iron. In the blink of an eye they transformed the Gorge. Gouging the earth with mines & quarries, stripping the hillsides of their ancient beech trees and lining the valley with tracks & tramroads. Some dream... more like a nightmare!

Then, as quickly as it came so it went. A whole industry made redundant by ever more clever engineering that took the iron-making elsewhere, leaving nature to reclaim the Gorge. Thankfully, the valley's steep sides saved the remaining beech trees from the axe and they are flourishing once more. So much so

that they now form part of a National Nature Reserve.

Come on follow me and I'll show you the tell-tale signs of the Gorge's iron-making past. But be warned, I won't let your kind spoil my woodland home again. Stick to the paths and I won't lead you astray, I promise.



Remains of the Clydach Ironworks
Gweddillion Gwaith haearn Clydach

Stori Pwca

Mentrwch ddilyn fi ac mi af â chi'n ddwfn i Geunant Clydach. Pwca yw'r enw. Dywed rhai bod y bardd enwog William Shakespeare wedi cael ei ysbrydoli i ysgrifennu amdanaf mewn drama o'r enw 'Breuddwyd Nos Gŵyl Ifan' yn dilyn ymweliad â'r ceunant dros 400 mlynedd yn ôl. Ond clywch, rwyf yn henach o lawer na hynny ac rydw i wedi gweld yr holl fynd a dod, credwch

chi fi. Byddwch yn garedig i fi ac fe gewch glywed mwyl. Dechreuodd y cyfan oll tua 250 o flynyddoedd yn ôl pan wnaethant ddarganfod trysorau cudd y ceunant; mwyn haearn, calchfaen, dŵr i gael pŵer a phren i wneud siarcol i fwydo'r ffwrneisi; y ffwrneisi tanllyd, myglyd a ddefnyddiwyd i wneud eu haearn. Mewn amrantiad, fe drawsnewidion nhw'r Ceunant. Cafnu'r pridd â'u pyllau glo a'u chwareli, tynnu'r coed ffawydd hynafol o'r llethrau a leinio'r cwm â thraciau a thramffyrdd. Breuddwyd wir... mwyl fel hunllef!

Yna, fel chwinciad, fe ddiflannodd eto. Diwydiant cyfan yn mynd ar y clwt diolch i beirianeg fwy clyfar byth a ddygodd y diwydiant creu haearn i fan arall, gan adael natur i adennill y Ceunant. Diolch byth cafodd y coed ffawydd oedd yn weddill, eu hachub rhag y fwyell, diolch i ymylon serth y cwm, ac erbyn hyn maen nhw'n ffynnu unwaith eto, yn gymaint eu bod nhw nawr yn rhan o Warchodfa Natur Leol. Dewch, dilynwch fi, ac fe ddangosaf i chi'r arwyddion sicr o orffennol creu haearn y Ceunant. Ond dyma rybudd i chi, ni adawaf i'ch math chi ddistrywio fy nghoetir fyth eto. Cadwch at y llwybrau ac ni wnafeich arwain ar gyfeiliorn, rwy'n addo.

Goblins in the Gorge?


The Gorge has such a magical atmosphere it's no surprise that it is a place of many myths & legends. The name 'Puck' has its roots in Celtic culture, the word 'pwca' being the Welsh version. A pwca is a fairy or goblin that is able to change its shape, taking on the appearance of a range of different animals. If you meet one on the trail be good to it, because it is said that they can bring you good luck or bad fortune!



Dipper (or Pwca?!)
Dipper (or Pwca?!)

Coblynnod yn y Ceunant?

Mae awyrgylch mor hudol yn y ceunant, felly nid yw'n syndod ei fod yn lle sy'n llawn chwedlau. Mae'r enw 'Pwca' â'i wreiddiau'n ddwfn yn niwylliant y Celtiaid. Pwca yw tylwythen deg neu goblyn sydd yn medru newid ei siâp, gan ymddangos fel gwahanol fathau o anifeiliaid. Os dowch chi ar draws un ar y llwybr, byddwn yn garedig iddo, am mai'r gred yw y gall ddod â lwc dda i chi.... neu anffawd!



Devil's Bridge
Devil's Bridge



SPOTTER'S GUIDE CANLLAW I WYLWYR

Ten top spots
Y Deg Mwyaf Poblogaidd

The result of all that industrial activity is a rich mosaic of habitats for wildlife and a highly diverse range of species that have made the Blaenavon World Heritage Site their home. What might you expect to see along the way? To help you identify some of the inhabitants we've highlighted a few below. See if you can spot them too...

Mae'r holl weithgarwch diwydiannol wedi arwain at frithwaith cyfoethog o gynefinoedd i fywyd gwyllt ac ystod amrywiol tu hwnt o rywogaethau sydd bellach yn byw ar Safle Treftadaeth y Byd. Beth fydddech chi'n disgwyl ei weld ar hyd y ffordd? I'ch helpu i ganfod rhai o'r rhywogaethau, rydym wedi eu hamlygu uchod. Beth am weld a fedrwc chi eu gweld hefyd...



Beech Trees
Coed ffawydd



Bluebell
Clychau'r gog



Great Spotted Woodpecker
Cnocell fraith fwyaf



Yellow Wagtail
Siglen felen



Nuthatch
Delor y cnau



Dipper
Bronwen y dŵr



Dark Green Fritillary
Britheg werdd



Sparrowhawk
Gwalch glas



Wood Anemone
Blodyn y gwynt



Wild Garlic
Garleg gwyllt

How did you get on?
Sut wnaethoch chi?

POINTS/PWYNT
30+ you're a top spotter!
rydych chi'n wyliwr gwych!

15-30 good spotting
da iawn wir

5-15 room to improve your spots!
lle i wella!

<5 never mind better luck on the next Treasure Trail!
peidiwch â phoeni, gwell lwc ar y Llwybr Trysor nesaf!



Wildlife images courtesy of John Bridges, copyright www.northeastwildlife.co.uk
Uniau bywyd gwyllt drwy garedigrwydd John Bridges, hawfaint www.northeastwildlife.co.uk

★ Trail Starts Here
Llwybr yn Dechrau Yma

Car Parks
Maes Parcio
Walk Route
Llwybr y Daith

From Brynmawr
O Frynmawr

Start at Clydach South Car
Park on Station Road,
Clydach.

From the entrance to the car park walk south
west along Station Road towards the village and
after approximately 50M take the road to the right
and go down the hill towards the river.

After approximately 75M you will come to a stone bridge that
crosses the River Clydach. Cross the bridge and go through the gate
on the left. Follow this road for a further 75M until you come to an iron
bridge on your left.

1. Smart's Bridge

This beautifully constructed iron bridge is dated 1824. It was
originally built to carry a tramroad, probably intended as a link
between the ironworks and the Clydach Railroad.

Cross the bridge and the ruins of the former Clydach Ironworks are
before you.

2. Clydach Ironworks

The romantic and peaceful ruins of the Clydach Ironworks that you
see before you today are a world apart from the fire-breathing
industrial monster that would have confronted you some 200 years
ago. Established by the Clydach Ironworks Company in 1793, the
industrial development was typical of the coke-fired blast furnaces
producing cast iron across the Heads of the Valleys in the latter
part of the 18th century.

Take the path to the right of the ironworks and go up the slope along
the route of a former tramroad. Turn right onto Dan Y Coed Road
and after approximately 200M take the turning on the right and
follow the road to the end. Go left at the end of the road taking the
grassy path behind the houses.

Just after a small bridge with metal railings you have the choice to
take a detour to explore Cwm Pwca (not to be missed!)

3. Cwm Pwca

It is said that Shakespeare once visited the Clydach Gorge and
in doing so was inspired to write 'A Midsummer Night's Dream',
hence the name of this trail - 'Cwm Pwca' (Puck's Valley). Myth or
reality, if you take the detour you will soon find out for yourself the
reason why. There is no more magical place in the whole of the
Clydach Gorge.

0 0.25K



7 Devil's Bridge
Pont y Diafol

6

5

Llanelly Quarry as it may have
appeared in the 1920's
Chwael Llanelli fel yr
ymddangosai yn ôl pob tebyg
yn y 1920au

through one of the best examples of a native Beech woodland
in western Britain, one of the main reasons the area has been
designated as a National Nature Reserve.

In front of you at the top of the slope is Llanelly Quarry. Take time
out here to enjoy the spectacular views across the Clydach Gorge.
Walk up the road for approximately 100M and bear left onto the
cycle track if you would like a closer view of the quarry. Or, to
continue, bear right along the cycle track.

5. Llanelly Quarry

Llanelly Quarry was originally established to supply lime to the
Clydach Ironworks in the valley below. As you pass in front of the
quarry the path you are on now was once the route of the Merthyr
Tredegar and Abergavenny Railway. Today it's Route 46 on the
National Cycle Network.

6. Merthyr Tredegar and Abergavenny Railway

What a spectacular railway journey this would have been. The
line through the Gorge was set at one of steepest gradients on
the British Railway network and as a result trains running downhill
were restricted to 25 mph!

Walk along the former track bed as far as the 'Gelli-Felen' Tunnels
and then take the path off to the right. Follow the cycle route around
the hillside and just past a stone cottage take the 'Cwm Pwca' way-
marked path to the right that descends steeply down the valley side,
taking care as you go!

7. Devil's Bridge

So named because the water is said to have worn away the rock
below it to create a devil-like image. Can you spot it?

Walk over the bridge and follow the path up the slope. Go through
the A465 underpass and keep following the path up the slope until
you reach Main Road. Walk down the road for a further 300M,
passing the former Hafod Inn immediately on your right.

From Abergavenny
O'r Fenny

PUCK'S VALLEY CWM PWCA



Former Clydach Ironworks as it may have appeared in
the mid 1840's
Gwaith Haearn Clydach gylch fel yr ymddangosai ym
mhob tebyg yng nghanol y 1840au

8. Blackrock Limeworks

On the left hand side of the road are a bank
of limekilns that were once part of the Blackrock
Limeworks, which included a large quarry set into the
hillside above you.

Continue to take the 'Cwm Pwca' way-marked path all the way
down the gorge, returning to Dan Y Coed Road via the footbridge
over the A465. Then retrace your steps back to Clydach South Car
Park.

We hope you enjoyed your walk and will want to
explore our other Treasure Trails in the Blaenavon
Industrial Landscape World Heritage Site.

Dechreuwch ym Maes Parcio De Clydach ar Heol yr orsaf,
Clydach.

O fynedfa'r maes parcio cerddwch i'r de-orllewin ar hyd Heol yr orsaf
tuag at y pentref, ac ar ôl tua 50m dilynwch yr heol i'r dde ac ewch i
lawr y bryn tuag at yr afon.

Ar ôl tua 75m fe ddowch i bont garreg sy'n croesi afon Clydach.
Croeswch y bont ac ewch drwy'r giât ar y chwith. Dilynwch yr heol hon
am 75m pellach tan i chi ddod at bont haearn ar eich chwith.

1. Pont Smart

Mae'r bont haearn, hardd yn dyddio o 1824. Cafodd ei
hadeiladu'n wreiddiol i gario dramffordd, yn ôl pob tebyg fel
cyswll rhwng y gwaith haearn a Rheilffordd Clydach.

Croeswch y bont ac o'ch blaen fe welwch weddillion hen waith
haearn Clydach.

2. Gwaith Haearn Clydach

Mae adfeilion rhamantus a heddychlon Gwaith Haearn Clydach
y gwelwch o'ch blaenau heddiu ymhell iawn o'r anghenfil
diwydiannol a anadlai dan rhyw 200 mlynedd yn ôl. Roedd y
datblygiad diwydiannol a sefydlwyd gan Gwmni Gwaith Haearn
Clydach ym 1793, yn nodwedd diadod o'r ffrwnseisi chwyth a
daniwyd â chols i gynhyrchu haearn bwrw ledled Blaenau'r
Cymoedd tuag at ddiwedd y 18fed ganrif.

Dilynwch y llwybr ar ochr dde y gwaith haearn ac ewch i fyny'r
llethr ar hyd hen lwybr dramffordd gynt. Trowch i'r dde ac
ymunwch â Heol Dan y coed ac ar ôl tua 200m trowch i'r dde a
dilynwch yr heol hyd at y diwedd. Ewch i'r chwith ar ddiwedd yr
heol gan ddilyn y llwybr glaswelltog y tu ôl i'r tai.

Ychydig ar ôl y bont fach â rheiliau metel mae gennych ddewis i
fynd allan o'ch ffordd i grwydro Cwm Pwca (bachwch y cyfle!)

3. Cwm Pwca

Dwywedir bod Shakespeare wedi ymweld â Cheunant Clydach
ar un adeg, ac ar ôl hynny cafodd ei ysbrydoli i ysgrifennu
'Breuddwyd Nos Gwyl Ifan', oherwydd hynny daw enw'r llwybr
hwn - 'Cwm Pwca' (Puck's Valley). Chwedl neu realiti, wrth ddilyn
y llwybr dargyfeirio fe welwch y rheswm drosach chi'ch hun.
Nid oes lle mwy hudol ar y ddaear na Cheunant Clydach yn ei
gyfarwydd.

Gan ddychwelyd unwaith eto i'r bont cadwch i'r dde ac i fyny
llethr serth. Rydych unwaith eto yn dilyn y llwybr, 'plân ar oledf',
hen dramffordd gynt!

4. Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Clydach

Wrth i chi fynd i fyny'r llethr rydych yn cerdded trwy un o'r
enghreifftiau gorau o'r coetiroedd ffawydd brodorol yng
ngorllewin Prydain, un o'r rhesymau pennaf y cafodd yr ardal ei
dynodi'n Warchodle Natur Genedlaethol.

O'ch blaen ar ben y llethr fe welwch Chwael Llanelli. Cymerwch
eich amser yma i fwynhau'r golygfeydd trawiadol ar draws
Ceunant Clydach. Cerddwch i fyny'r heol am tua 100m ac i'r
chwith gan ymuno â'r llwybr beicio os hoffech gipolwg agosach
ar y chwael. Neu, i barhau, ewch i'r dde ar hyd y llwybr beicio.

5. Chwael Llanelli

Sefydlwyd Chwael Llanelli yn wreiddiol i gyflenwi calch i Waith
Haearn Clydach yn y cwm islaw. Wrth i chi fynd heibio o flaen
y chwael, roedd y llwybr yr ydych yn sefyll arno nawr, yn llwybr
Rheilffordd Merthyr Tredegar a'r Fenni ar un adeg. Heddiw, Llwybr
46 ydyw ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

6. Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni

Byddai'r siwrnai ar y rheilffordd wedi bod yn drawiadol iawn.
Cafodd y llinell rheilffordd drwy'r ceunant ei osod ar un o'r
llethrau mwyaf serth ar rwydwaith Rheilffordd Prydain ac o
ganlyniad cafodd y trenau oedd yn teithio i lawr y llethr eu
cyfyngu i 25 mya!

Cerddwch ar hyd gwely'r trac gynt cyn belled â Thwneli
'Gellifelen' ac yna dilynwch y llwybr ar y dde. Dilynwch y llwybr
beicio o amgylch y llethr ac ychydig heibio bwthyn carreg
dilynwch y llwybr sy'n dangos Cwm Pwca i'r dde, mae'n disgyn
yn serth i lawr ymyl y cwm, felly cymerwch ofall!

7. Pont y Diafol

Cafodd ei enwi felly am fod y dŵr, yn ôl pob sôn wedi treulio'r
graig islaw i greu delwedd fel diafol. Fedrwc chi ei gweld?

Cerddwch dros y bont a dilynwch y llwybr i fyny'r llethr. Ewch
drwy danffordd yr A465 a dal ati i ddilyn y llwybr i fyny'r llethr
tan i chi gyrraedd yr Heol Fawr. Cerddwch i lawr yr heol am
300m pellach, gan fynd heibio'r Hafod Inn sydd ar eich ochr dde.

8. Gwaith Calch Blackrock

Ar ochr chwith yr heol mae yna fanc o odyrnau calch a oedd
unwaith yn rhan o Waith Calch Blackrock, a oedd yn cynnwys
chwael fawr yn ymyl y llechwedd uwch eich pen.

Dilynwch y llwybr sy'n dangos 'Cwm Pwca' yr holl ffordd i lawr y
ceunant, gan ddychwelyd i Heol Dan y coed dros y bompren dros
yr A465. Yna dychwelwch i Faes Parcio De Clydach.

Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau eich taith ac y
byddwch am grwydro mwy o'n Llwybrau Trysor yn
Nhirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth
y Byd.

Illustrations by Michael Blackmore
Uniau gan Michael Blackmore

BLAENAVON INDUSTRIAL LANDSCAPE

TIRWEDD DDIWYDIANNOL BLAENAFON

Cwm Pwca Trail

The Trail is a circular walk of approximately 5 Kms (3.1 miles) which is suitable for families with younger children and should take 1.5 hours to complete. For your own safety it is recommended that you wear stout footwear and warm waterproof clothing.

Llwybr Cwm Pwca

Gaith gylch o ryw 5 Km (3.1 milltir yw'r llwybr, sy'n addas i deuluoedd â phlant hŵn a dylai gymryd tua 1.5 awr i'w gwblhau. Er eich diogelwch, awgrymir eich bod yn gwisgo esgidiau cryfion a dillad glaw, cynnes.

Information/Gwybodaeth

We hope you have fun exploring the Blaenavon World Heritage Site.

For more information visit www.visitblaenavon.co.uk or contact the Blaenavon World Heritage Centre on 01495 742333.

Gobeithiwn y cewch hwyl yn crwydro Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon. I gael mwy o wybodaeth ewch i www.visitblaenavon.co.uk neu cysylltwch â Chanolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon ar 01495 742333.



Tel/Ffôn: 01495 742333
www.visitblaenavon.co.uk
blaenavon.tic@torfaen.gov.uk

